# Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol

## Cofnodion EUR(2) 05-06

### Dyddiad y cyfarfod: 22 Mehefin 2006
### Amser y cyfarfod: 2:00pm – 4:35pm
### Lleoliad y cyfarfod: Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Senedd, Bae Caerdydd

#### Aelodau'r Cynulliad yn Bresennol

| Aelod Cynulliad | Etholaeth |
|---|---|
| Sandy Mewies (Cadeirydd) | Delyn |
| Leighton Andrews | Y Rhondda |
| Rosemary Butler | Gorllewin Casnewydd |
| Mike German | Dwyrain De Cymru |
| Ieuan Wyn Jones | Ynys Môn |
| Rhodri Morgan | Gorllewin Caerdydd |
| Rhodri Glyn Thomas | Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr |

#### Swyddogion yn Bresennol

| Enw | Teitl Swydd |
|---|---|
| Anna Daniel | Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau, Dadansoddwr Polisi'r Undeb Ewropeaidd |
| Philip Bird | Yr Is- adran Ewropeaidd a Materion Allanol |
| Des Clifford | Yr Is- adran Ewropeaidd a Materion Allanol |

#### Eraill yn Bresennol

| **Enw** | **Yn cynrychioli** | **Eitem(au) ar yr agenda** |
|---|---|---|
| Andy Klom | Pennaeth Swyddfa'r Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru | |
| Rose D’Sa | Pwyllgor Economaidd a Chymdeithasol Ewrop | |
| Philip Fiander | Cyfarwyddwr Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Ewrop -Cymru | 7 |
| Sharon Thomas | Cyfarwyddwr Gweithredol – Y Ganolfan Ewropeaidd ar gyfer Hyfforddi a Chydweithredu Rhanbarthol (ECTARC) | 7 |

**Gwasanaeth Pwyllgor**

| | |
|---|---|
| Chris Reading | Clerc |
| Olga Lewis | Dirprwy Glerc |

**Eitem 1: Cyflwyno, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau**

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Nick Bourne AC, Jeff Cuthbert AC, Christine Gwyther AC, Jonathan Morgan AC, Jonathan Evans ASE, Jill Evans ASE, Glenys Kinnock ASE, Eluned Morgan ASE a Janet Davies AC.

1.2 Roedd Leighton Andrews AC yn dirprwyo ar ran Jeff Cuthbert AC.

1.3 Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

1.4 Mae cofnod gair am air o'r cyfarfod ar gael.

**Eitem 2: Cofnodion y cyfarfod blaenorol a materion sy'n codi**

Papur: EUR(2) 04-06- Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 10 Mai 2006
Papur: EUR(2) 05-06 - Camau heb eu cymryd
Papur: EUR(2) 05-06 – Nodyn ar ddefnyddio'r Gymraeg mewn perthynas â sefydliadau'r UE

2.1 Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Mai yn gywir.

2.2 Rhestr o'r Camau sydd heb eu cymryd (rhai oedd yn bodoli eisoes a rhai newydd):

- Gofynnodd y Cadeirydd i'r Clerc drefnu sesiwn 'taflu syniadau' anffurfiol er mwyn ysgogi a thrafod syniadau'r Aelodau ar gyfer dathlu Diwrnod Ewrop y flwyddyn nesaf, gan gynnwys graddfa amser gweithredu. Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n gyfrifol am gylchredeg rhai syniadau drwy'r Clerc.
- Tynnodd Andy Klom sylw at y ffaith y bydd y flwyddyn nesaf yn hanner canmlwyddiant llofnodi Cytundeb Rhufain , a bydd hyn yn cael ei ddathlu drwy Ewrop fis Mai nesaf. Ar hyn o bryd, mae'r Aelod-Lywodraethau, ynghyd â'r Comisiwn Ewropeaidd, yn trafod pa ddigwyddiadau y gellid eu cynnal. Addawodd Andy Klom y byddai'n hysbysu'r Pwyllgor am hynt y trafodaethau.
- Dywedodd y byddai hi'n gyfrifol am wirio a gyhoeddwyd yr adroddiadau ar ymdrin â thrychinebau naturiol, llygredd yn yr aer a'r amgylchedd morol ac am gylchredeg y rhain ymhlith yr Aelodau.

2.3 Trafododd yr Aelodau'r papur a baratowyd gan Des Clifford, ynghylch defnyddio'r Gymraeg mewn sefydliadau Ewropeaidd, a'i nodi.

## Eitem 3: Cylch Gorchwyl ar gyfer Adolygiad Polisi

Papur: EUR(2) 05-06 (p6) – Adolygiad ar Addysg / Ymwybyddiaeth Dinasyddiaeth Ewrop a'r Byd yng Nghymru - Cylch Gorchwyl

3.1 Cytunodd y Pwyllgor y cylch gorchwyl ar gyfer yr adolygiad polisi.

Camau i’w Cymryd:

- Gofynnodd y Cadeirydd i'r Clerc gysylltu â'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus i wybod am hynt gyfredol ei adolygiad polisi ar drefniadau etholiadol yng Nghymru; hyn i gynnwys darparu'r papurau perthnasol gan y Pwyllgor LlLGC yn friffio cefndir i'r Pwyllgor MEA a chynghori ar bosibilrwydd cynnal sesiynau ar y cyd i wrando ar dystiolaeth.
- Awgrymodd yr Aelodau sawl dull o gysylltu â phobl ifainc i gael gwybod eu barn am y dull presennol o ddysgu dinasyddiaeth Ewrop a'r byd. Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys fforymau/ cynghorau ieuenctid yr awdurdodau lleol, cynghorau ysgol, Urdd Gobaith Cymru a Chanolfan Gymreig Materion Rhyngwladol. Gofynnodd y Cadeirydd i'r Clerc ymchwilio i ddulliau o ganfod barn pobl ifainc.
- Gofynnodd y Cadeirydd i'r Aelodau anfon unrhyw syniadau eraill am gyflwynwyr posibl i'r Clerc.
- Cyfeiriodd Rose D’Sa at lythyr dyddiedig 19 Mehefin 2006 a oedd wedi'i gylchredeg i'r Pwyllgor oddi wrth Mr Ian Thomson, Rheolwr Gwybodaeth Canolfan Gwybodaeth Uniongyrchol Ewrop De Cymru. Cyfeiriodd Mr Thomson yn y llythyr hwn at wasanaeth masnachol ar y we sydd yn rhoi gwybodaeth ynghylch materion Ewropeaidd, ac awgrymodd y gellid, o bosibl, ei gynnwys ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol. Roedd yr aelodau o'r farn y dylid ystyried hyn a gofynnodd y Cadeirydd i'r Clerc ymchwilio i ddichonoldeb y cynnig.

- Gofynnodd y Cadeirydd i'r Clerc ystyried posibilrwydd ymweliad â'r Alban neu Iwerddon i gasglu gwybodaeth, a hynny'n rhan o'r adolygiad.

### Eitem 4: Adroddiad Diweddaraf gan Aelodau Pwyllgor y Rhanbarthau

Papur: EUR(2) 05-06 (p7) - Adroddiad: Pwyllgor y Rhanbarthau - Mehefin 2006

4.1 Nododd y Pwyllgor yr adroddiad gan Bwyllgor y Rhanbarthau.

Camau i'w Cymryd:

- Nid oedd camau i'w cymryd.

### Eitem 5: Blaenraglen Waith Pwyllgorau Eraill

Papur: EUR(2) 05-06 (p8) Blaenraglenni Gwaith Pwyllgorau Eraill

5.1 Nododd y Pwyllgor flaenraglenni gwaith pwyllgorau eraill.

Camau i'w Cymryd:

- Nid oedd camau i'w cymryd.

### Eitem 6: Papur Gwyn Strategaeth Gyfathrebu'r Comisiwn Ewropeaidd

Papur: EUR(2) 05-06(p2) – Ymateb y Pwyllgor i'r Papur Gwyn ar Strategaeth Gyfathrebu Ewropeaidd
EUR(2) 05-06(p3) – Sylw i faterion yr UE mewn papurau newydd yng Nghymru

6.1 Trafododd y Pwyllgor yr ymateb drafft i ymgynghoriad y Comisiwn Ewropeaidd ar eu Papur Gwyn ar Strategaeth Gyfathrebu. Roedd yr Aelodau am gyfeirio at hybu defnyddio'r Gymraeg – roedd cyfeiriad at hyn yn y 'papur i'w nodi' a drafodwyd dan Eitem 2 ar yr agenda. Roedd yr Aelodau hefyd yn dymuno cynnwys geiriau fyddai'n golygu y dylai Sefydliadau Ewropeaidd eraill, ar wahân i'r Comisiwn, chwarae'u rhan wrth egluro'u swyddogaeth a hynny nid yn unig yn y cyfnod yn union cyn yr etholiadau ar gyfer Senedd Ewrop.

Camau i'w Cymryd:

- Y Clerc i ddiwygio'r ymateb yn ôl sylwadau'r Aelodau a'i gylchredeg i dderbyn cymeradwyaeth cyn ei anfon i'r Comisiwn Ewropeaidd.
- Mae Andy Klom wedi ymgymryd â'r dasg o ddarparu papur yn y cyfarfod nesaf ar yr hyn a wneir mewn lleoedd eraill i hybu dealltwriaeth well o'r sefydliadau Ewropeaidd a'u heffaith ar ddinasyddion.

## Eitem 7: Canolfannau Gwybodaeth Uniongyrchol Ewrop

Papur: EUR(2) 05-06 (p4) - CGGC yn hybu ymwybyddiaeth o'r Undeb Ewropeaidd a gwybodaeth amdano
Papur: EUR(2) 05-06 (p5) - Cynllun gwaith y Ganolfan Ewropeaidd ar gyfer Hyfforddi a Chydweithredu Rhanbarthol er mwyn gweithredu Europe Direct 2006

7.1 Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad ar yr hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd a chynlluniau i'r dyfodol i hybu gwybodaeth am faterion Ewropeaidd.

Camau i'w Cymryd:

- Cytunodd Andy Klom i ddarparu gwybodaeth ynghylch a fydd busnesau preifat yn gallu cyllido'r cylch nesaf o Ganolfannau Europe Direct.
- Gofynnodd y Cadeirydd i'r Clerc chwilio am eglurhad o swyddogaethau'r Cyngor Prydeinig (fel corff comisiynu) ac Ectarc wrth ddarparu cyngor a chanllawiau o ran rhaglenni addysg a diwylliant a ariennir gan yr UE.

## Eitem 8: Adroddiad y Prif Weinidog

Papur: EUR(2) 05-06 (p1) – Adroddiad y Prif Weinidog

8.1 Ymddiheurodd y Prif Weinidog am iddo golli rhan gyntaf y cyfarfod, ac yna cyflwynodd ei adroddiad a hysbysu'r Pwyllgor am y datblygiadau ers y cyfarfod diwethaf.

Camau i'w Cymryd:

Ymgymerodd y Prif Weinidog â'r canlynol:

- Cyflwyno adroddiad ar y refferendwm yng Nghatalonia yn ddiweddar;
- Cylchredeg y 'map ffordd ar gyfer cymorth gwladwriaethol' ar ôl iddo gael ei gyhoeddi; a
- Chwilio am wybodaeth ynghylch y cais a ddarperir gan lywodraethau'r Eidal a Ffrainc am gymorth i'w diwydiant dofednod. Mae hyn yn cyfeirio at ohebiaeth a fu rhwng y Prif Weinidog a Ieuan Wyn Jones.

## Gwasanaeth y Pwyllgorau